



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport

**Cadeirydd Clwb  
Pêl-droed Prifysgol  
Met Caerdydd**

Pecyn Gwybodaeth  
i Ymgeiswyr



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

# Trosolwg o Glwb Pêl-droed Prifysgol Met Caerdydd

Mae Prifysgol Met Caerdydd yn un o'r unig sefydliadau yn y wlad sy'n cefnogi pêl-droed lled-broffesiynol elitaidd ar gyfer Dynion a Menywod. Mae ein timau'n cystadlu yn y cynghreiriau prifysgolion uchaf a hefyd yn uwch gynghrair Cymru ac Adran.

Mae llwyddiant yn ein DNA, gyda chyflawniadau nodedig yn cynnwys:

- Y Brifysgol gyntaf erioed i gyrraedd rowndiau Rhagbrofol Cynghrair Europa a rowndiau Rhagbrofol Cynghrair Pencampwyr Menywod UEFA.
- Wedi cael eu coroni'n Bencampwr Prifysgolion Prydain dwywaith.
- Enillwyr Uwch Gynghrair Merched Cymru ar 5 achlysur.

Mae chwaraewyr sydd wedi dod trwy ein system yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:

- Sophie Ingle (Capten Cymru ac Enillydd Cynghrair y Pencampwyr gyda Chelsea FC)
- Will Evans (Casnewydd Sir)
- Adam Roscrow (AFC Wimbledon)

Yn ogystal, mae'r clwb wedi derbyn statws Categori A ar gyfer ei Academi Iau (Dan 8 – Dan 19), gan ei wneud yn un o ddim ond 4 yng Nghymru.

Er mwyn parhau i dyfu a datblygu'r system bêl-droed, gwnaethom drosglwyddo'r clwb pêl-droed o'i wreiddiau gwreiddiol, i'r Brifysgol yn ddiweddar i ffurfio CMUFC Ltd. Mae'r clwb bellach yn gweithredu fel is-gwmni, ac yn elwa o gefnogaeth sefydliadol ehangach. Bydd gan yr endid newyddhwn Fwrdd cytbwys, amrywiol, cynhwysol a medrus. Y cam cyntaf yn y broses hon yw penodi Cadeirydd annibynnol. Byddwn wedyn hefyd yn recriwtio ar gyfer 6-8 aelod arall yn seiliedig ar anghenion a gofynion y clwb pêl-droed.



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport

# Amcanion Strategol

Mae Clwb Pêl-droed Met Caerdydd yn ymdrechu i sicrhau aliniad strategol rhwng Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Mae creu Cynllun Datblygu Pum Mlynedd yn ddiweddar yn amlinellu ymrwymiad y Clwb i bileri domestig Pêl-droed Cymru, tra'n cydnabod ein safle o fewn y Brifysgol ehangach. Mae'r Clwb Pêl-droed yn gweithredu allan o Chwaraeon Met Caerdydd, cangen chwaraeon, gweithgarwch corfforol a chyflenwi iechyd y Brifysgol. Mae gan Met Chwaraeon y gyrrwyr strategol canlynol:

## Cenhadaeth

Byddwn yn darparu profiad chwaraeon rhagorol, cynhwysol a bydd Met Caerdydd yn cael ei ystyried fel Prifysgol Chwaraeon Cymru, gan fanteisio ar chwaraeon fel lifer ar gyfer lles cymdeithasol, economaidd a chymdeithasol ehangach.

## Dull

Byddwn yn mabwysntio dull system gyfan ar draws y Brifysgol a Dinas Caerdydd. Mae hyn yn golygu dod ag ystod eang o bartneriaid at ei gilydd; cymryd camau cydgysylltiedig ar draws meysydd allweddol; a chanolbwyntio ar ysgogiadau system, lle gall newid bach greu newidiadau mawr. Byddwn yn buddsoddi mewn ac yn datblygu ein galluoedd ymchwil a gwerthuso i ategu'r dull hwn a sicrhau dysgu parhaus ar draws y sefydliad.

Rydym yn gwneud hyn trwy weithio ar draws 9 maes (deilliannau):

**Pobl** - Byddwn yn datblygu amgylchedd lle gall un grŵp o bobl dawnus wneud y gwaith gorau o'u bywydau yn barhaus. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd i'n myfyrwyr trwy Campws Agored a datblygu ein gweithlu hyfforddi a gwirfoddol.

**Mannau** - Byddwn yn datblygu ac yn buddsoddi yn ein cyfleusterau i greu mannau hygyrch sy'n ysbrydoli symudiad a perfformiad

**Proffil** - Byddwn yn sefydlu ein hunaniaeth fel Prifysgol Chwaraeon Cymru wedi'i hadeiladu ar ein rhaglenni cymunedol a pherfformiad, stori eiconig y Saethwyr yn sail i'r proffil hwn.



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport

## Amcanion Strategol (parhad)

**Punnoedd** – Byddwn yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o broffidioldeb ein rhaglenni presennol ac yn chwilio am ffrydiau refeniw newydd sy'n darparu enillion cynaliadwy a chyson ar fuddsoddiad.

**Symud Mwy** – Byddwn yn arwain datblygiad y strategaeth Symud Mwy gan fabwysiadu dull seiliedig ar leoedd, gan weithio gyda phartneriaid i wneud Caerdydd y ddinas fwyaf gweithgar yn y DU.

**Cyfranogiad a Chynhwysiant** – Byddwn yn gwella profiad ein gweithlu, ein myfyrwyr a'n cymunedau trwy ddarparu cyfleoedd teg, gwella lefelau cyfranogiad a galluogi pawb i deimlo eu bod wedi'u cynnwys. Byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bawb.

**Chwarae** – Byddwn yn datblygu a moderneiddio strwythurau ein clybiau, gan ddarparu profiad rhagorol, cynhwysol i fyfyrwyr, tra'n defnyddio pŵer ein clybiau chwaraeon i gefnogi ein cynnig chwaraeon ehangach a'n hymdeimlad o berthyn sefydliadol.

**Perfformiad** – Byddwn yn cyflawni gwelliannau trawsnewidiol yn ein rhaglenni perfformiad trwy newid strwythurol a buddsoddiad sylweddol sy'n gyrru llwyddiant parhaus ar lwyfan Cenedlaethol a Rhyngwladol.

**Planed** – Byddwn yn datblygu arferion presennol ac yn gweithio gyda phartneriaid i yrru mentrau cynaliadwyedd sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyflawni dyfodol carbon isel.

**Proses** – Byddwn yn ail-alinio'r model cyflawni ar gyfer chwaraeon ac yn defnyddio data i gynnal a gwella o gyfranogiad i perfformiad.



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport



# Rôl y Cadeirydd

Ym Mhrifysgol Met Caerdydd, ein huchelgais strategol yw bod yn Brifysgol Chwaraeon Cymru. Mae hwn yn gyfle cyffrous i unigolyn profiadol ddod yn rhan o'n eco-system chwaraeon unigryw gan helpu i adeiladu ar ein hanes o lwyddiant ar draws pêl-droed dynion a menywod.

Oherwydd natur unigryw'r clwb pêl-droed a'i safle yn y Brifysgol, bydd y rôl hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu arweiniad a chyingor arbenigol, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r holl feysydd datblygu (masnachol, digidol, cymunedol, perfformiad) ar draws y system bêl-droed. Rydym yn chwilio am unigolyn ysbrydoledig sy'n angerddol am Addysg Uwch a'r rôl unigryw y mae chwaraeon yn ei chwarae ym myd addysg, datblygiad a dysgu pobl ifanc. Bydd y rôl yn gweithredu fel pennaeth Clwb Pêl-droed Met Caerdydd ac yn cynrychioli'r Brifysgol yn genedlaethol fel aelod o Gymdeithas Bêl-droed Cymru.

Drwy weithio gyda Chyfarwyddwr y System Bêl-droed, rôl y Bwrdd yw darparu cymorth ac arweiniad effeithiol sy'n canolbwyntio ar y datblygiad masnachol, partneriaethau a pherthnasoedd rhanddeiliaid a gofynion cyfreithiol a fydd yn galluogi CMUFC i fod yn llwyddiannus. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau:

- Drwy ddefnyddio eu profiad eu hunain a drwy weithio gyda'r bwrdd, eu bod yn archwilio opsiynau sy'n cynnwys y gallu i arallgyfeirio ffrydiau refeniw, gan gynnwys cyllid a chyfleoedd masnachol gyda phartneriaid a noddwyr, tra'n sicrhau bod gan y clwb reolaeth a pherthynas rhagorol gyda'r rhanddeiliaid.
- Eu bod yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol sy'n sicrhau bod llywodraethu corfforaethol ac ecwiti yn cael eu cynnal i safon uchel, a'u bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.
- Bod cyfathrebu effeithiol ymhlith aelodau'r Bwrdd, y tîm datblygu pêl-droed a Chyfarwyddwr y System Bêl-droed.



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport

# Rôl y Cadeirydd (parhad)

## Rheoli Cyfarfodydd

Cadeirio hyd at bum cyfarfod y flwyddyn, gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

## Arweinyddiaeth a Llywodraethiant

Darperir arweinyddiaeth y system bêl-droed trwy Chwaraeon Met Caerdydd a Chyfarwyddwr y System Bêl-droed. Bydd y Cadeirydd yn gweithredu fel cwnsler, gan ddarparu cyngor ac arweiniad sy'n cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad strategol.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod y clwb wedi'i ei leoli yn y Brifysgol ac felly, nid oes gan y bwrdd ymreolaeth i wneud penderfyniadau strategol nad ydynt yn cyd-fynd â pholisi corfforaethol.

## Datblygu ac annog Aelodau'r Bwrdd

Cymryd yr awenau wrth sefydlu a datblygu aelodau'r Bwrdd, gyda'r bwriad o wella effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd fel tîm a chynorthwyo gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth

## Hyrwyddo Tegwch a Chydraddoldeb

Galluogi tegwch yn ymarferol ac ymdrechu am gydraddoldeb i bob aelod, staff ac aelodau bwrdd. I sicrhau bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb am alinio polisi'r Brifysgol ar gydraddoldeb, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Rôl y Llysgenhaddon

Yn gweithredu fel llysgennad i CMUFC yn allanol ac yn helpu i adeiladu ei frand a'i ddelwedd gyhoeddus, gan sicrhau proffil lleol a rhanbarthol effeithiol mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y System Bêl-droed. Yn cynrychioli CMUFC yn ôl yr angen gyda rhanddeiliaid allweddol, megis Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru neu benderfynwyr dylanwadol eraill. Mynychu cyfarfodydd ad-hoc yn ôl yr angen (er enghraifft cyfarfodydd rhanddeiliaid) i hyrwyddo gwerthoedd a phwrrpas CMUFC.



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport

# Manyleb Person

## Hanfodol

- Tystiolaeth o lwyddiant, mewn amgylchedd Elusennol, Corfforaethol, Iechyd, Tai, Addysg, Cydraddoldeb neu Wasanaethau Proffesiynol
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Bêl-droed Cymru a'r DU cyfundrefn
- Profiad ar Fyrddau eraill
- Profiad masnachol sylweddol a'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth a rhwydweithiau i gefnogi datblygiad y clwb pêl-droed
- Tystiolaeth o'r gallu i weithredu gyda phroffesiynoldeb a gonestrwydd, a gydag athroniaeth gref o gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth
- Prfod o lywodraethu cyfreithiol a chorfforaethol.

## Dymunol

- Dealltwriaeth o sector chwaraeon Cymru a'r heriau sy'n wynebu sefydliadau chwaraeon ar lefel domestig a/neu rhyngwladol.
- Profiad cyfreithiol benodol.
- Dealltwriaeth o'r sector Addysg Uwch.
- Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport

# Rhagor o wybodaeth

## Tâl

Mae rôl y Cadeirydd yn wirfoddol a bydd yr holl dreuliau a hawlir wrth gyflawni'r dyletswyddau'n yn cael eu hail-dalu yn unol â pholisi'r Brifysgol.

## Ymrwymiad o ran amser

Cadeirio Cyfarfodydd y Bwrdd a chynrychioli'r clwb yn allanol yn ôl yr angen.

## Cyfnod

Bydd cyfnod y swydd yn 3 blynedd gydag ail dymor (o 2 flynedd) yn amodol ar gymeradwyaeth gan y bwrdd.

## Recriwtio

I gael eich ystyried ar gyfer y rôl hon, lanlwythwch CV a llythyr eglurhaol i'n porth swyddi sy'n nodi sut mae eich sgiliau, eich gallu a'ch profiad yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y pecyn hwn.

Dyddiad cau: Dydd Gwener 13 Mehefin 2025

Os hoffech drafod y swydd cyn cyflwyno cais, cysylltwch â Ben O'Connell – Cyfarwyddwr Chwaraeon:  
[boconnell@cardiffmet.ac.uk](mailto:boconnell@cardiffmet.ac.uk)



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met Sport





Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd



Chwaraeon Met Caerdydd  
Cardiff Met **Sport**